# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Fideo gynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 21 Ionawr 2021

Amser: 13. 30- 16.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/11150) yn:

http://senedd.tv/cy/11150

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Janet Finch-Saunders AS<br>Llyr Gruffydd AS<br>Jenny Rathbone AS |
| Tystion: | Tim Smith, Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth<br>John Davies, Undeb Cenedlaethol Amaethwyr (NFU) Cymru<br>Glyn Roberts, Undeb Amaethwyr Cymru<br>Christianne Glossop, Y Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru<br>Ifan Lloyd, Cymdeithas Milfeddygol Prydain<br>Grace O'Gorman, Swyddfa Genedlaethol Iechyd Anifeiliaid Cyf |
| Staff y Pwyllgor: | Elizabeth Wilkinson (Clerc)<br>Andrea Storer (Dirprwy Glerc)<br>Elfyn Henderson (Ymchwilydd)<br>Katy Orford (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, cafwyd datganiad gan y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu y dylid gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

1.3 Os byddai unrhyw broblemau technegol yn codi yn ystod y cyfarfod, gan olygu y byddai ei gyswllt band eang yn cael ei dorri, nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno y byddai Jenny Rathbone AS yn cymryd ei lle fel Cadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4 Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watson AS a Neil Hamilton AS.

## 2 Trafodaeth gyda'r Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gadeirydd ac Aelodau o'r Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth.

## 3 Iechyd anifeiliaid ac atal afiechydon – sesiwn dystiolaeth 1

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Y Prif Swyddog Milfeddygol; Swyddfa Genedlaethol Iechyd Anifeiliaid Cyf; a Changen Gymreig Cymdeithas Milfeddygon Prydain.

## 4 Papur(au) i'w nodi

4.1 Cafodd y papurau eu nodi.

4.1 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU

4.2 Gohebiaeth rhwng y Cadeirydd a Chyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â dyletswyddau trwydded pysgota rhwyd eog a brithyll mudol 2021-2023

4.3 Papur gan Y Cerddwyr mewn perthynas â gwaith craffu'r Pwyllgor ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22

4.4 Gohebiaeth gan Bwyllgor Llywodraeth Leol a Chymunedau Senedd yr Alban at Lywodraeth yr Alban mewn perthynas â'r Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar gyfer Sylweddau Peryglus (Cynllunio)

4.5 Gohebiaeth rhwng y Cadeirydd a'r Fenter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru mewn perthynas â chylch gwaith bioamrywiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru

4.6 Gohebiaeth at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn perthynas â gwaith gwaddol y Pwyllgor

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Ystyried trafodaeth gyda'r Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth o dan eitem 2

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd o dan eitem 2.

## 7 Iechyd anifeiliaid ac atal afiechydon: Trafod y dystiolaeth a glywyd o dan eitem 3

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd o dan eitem 3.

## 8 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

8.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith a chytunodd arni.